Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Moelwyn
# Heol Wynne
# Blaenau Ffestiniog
# Gwynedd
# LL41 3DW

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Y Moelwyn

Ysgol uwchradd naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-16 oed yw Ysgol y Moelwyn. Mae wedi ei lleoli ym Mlaenau Ffestiniog yng Ngwynedd. Bu gostyngiad bychan yn niferoedd y disgyblion dros y tair blynedd diwethaf ac mae 313 o ddisgyblion ar y gofrestr erbyn hyn.

Mae tua 13% o'r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sef 17%. Mae 30% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Daw 81% o'r disgyblion o gartrefi lle Cymraeg yw iaith yr aelwyd. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 1997. Ar hyn o bryd, yn ogystal â'i rôl fel pennaeth yr ysgol, mae'n gweithredu fel pennaeth strategol dros Ysgol Y Berwyn yn y Bala. Mae uwch dîm rheoli'r ysgol yn cynnwys y pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol y Moelwyn yn ysgol ofalgar sydd yn chwarae rhan allweddol yn ei chymuned leol. Mae arweinyddiaeth gadarn wedi sicrhau ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn ymysg disgyblion a staff yr ysgol. Mae hefyd wedi arwain at safonau lles uchel ac addysgu o ansawdd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn ardderchog ac mae llawer yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r ysgol a'r ardal trwy weithgareddau allgyrsiol ac elusennol. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llawer o bynciau. Serch hyn, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y pynciau craidd.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 ac yn Saesneg

A2 Sicrhau bod dyletswyddau'r tîm arwain yn eu galluogi i fynd i'r afael yn llawn â gwella safonau

A3 Sicrhau bod arweinwyr yn arfarnu darpariaeth, yn enwedig ymyraethau, yn sgil eu heffaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

A4 Gwella ansawdd yr asesu, gan sicrhau bod athrawon yn cynnig adborth penodol a bod disgyblion yn ymateb yn ystyrlon i'r adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn llawer o bynciau o ran eu medrau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw cyflawniad disgyblion yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf.

Mewn llawer o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso'u medrau yn briodol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae llawer o ddisgyblion yn siaradwyr huawdl a hyderus yn y Gymraeg. Defnyddiant dafodiaith gyfoethog a Chymraeg idiomatig, fywiog. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn llawer llai hyderus wrth siarad Saesneg. Mae llawer yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, er enghraifft wrth werthuso perfformiadau cerddorol neu fedrau gymnasteg, ac mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith bynciol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn barchus ar ei gilydd, ac ar eraill.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn gymwys ac yn dod i gasgliadau synhwyrol. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn dehongli deunydd darllen yn greadigol. Er enghraifft, mewn Addysg Grefyddol, maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant o'u tasgau darllen i greu gwaith celf. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn rhoi strategaethau darllen defnyddiol ar waith ond mae lleiafrif yn cael anhawster cwblhau tasgau darllen yn annibynnol. Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn dehongli testunau amrywiol yn addas ac mae ychydig yn gwneud hynny'n grefftus ac yn sensitif yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o derminoleg dadansoddi wrth ddehongli testunau yn Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig addas at amrywiaeth o bwrpasau, ac yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol, megis wrth ysgrifennu am artistiaid enwog yn celf. Mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth glir o gynulleidfa a ffurf, er enghraifft wrth ysgrifennu portreadau o aelodau o'u teulu yn Gymraeg. Mae llawer ohonynt â geirfa a chystrawen gadarn, naturiol wrth ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae ychydig yn meddu ar eirfa gyfoethog, eang ac yn ysgrifennu'n gywir iawn. Er hyn, mae lleiafrif yn defnyddio geiriau Saesneg a bratiaith yn eu gwaith ysgrifenedig Cymraeg. Pan fyddant yn ysgrifennu yn Saesneg, mae lleiafrif o ddisgyblion â geirfa briodol a gafael gadarn ar gystrawen. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn camsillafu geiriau cyffredin yn gyson ac yn gwneud camgymeriadau gramadegol niferus. Mae'r mwyafrif â geirfa rhy gyfyng ac mae cywair eu gwaith yn rhy anffurfiol ar brydiau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrifo ac yn trin hafaliadau yn gywir, yn gyffredinol, er y ceir gwallau o ran mynegiant a methodoleg mewn ychydig o achosion. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd effeithiol a chywir o graffiau ac yn hyderus wrth gyfrifo yn y pen. Mewn ychydig o bynciau perthnasol, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, defnyddiant daenlenni i gyfrifo a dadansoddi canlyniadau holiaduron yn eu gwersi mathemateg.

Mae creadigrwydd disgyblion yn nodwedd gref. Ceir enghreifftiau niferus o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ar draws ystod o bynciau. Er enghraifft, mae rhai disgyblion wedi cynhyrchu llyfr o waith ysgrifennu a chelf ar y cyd â llenor lleol. Maent hefyd yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol, ac mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadlaethau gymnasteg cenedlaethol a rhyngwladol ers rhai blynyddoedd.

Mae perfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill ac nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn y dangosydd hwn. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn gyson gadarn ac yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg eraill.

Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill pump TGAU gradd A*-A neu gyfwerth wedi amrywio dros amser ond wedi gwella'n sylweddol yn 2017.

Yn y dangosyddion sydd yn cynnwys pum gradd TGAU A*-C ac A*-G neu gyfwerth, ac mewn llawer o'r pynciau allgraidd, mae perfformiad bechgyn a merched dros y tair blynedd diwethaf yn gryf. Mae eu perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gyffredinol gadarn. Fodd bynnag, yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-C neu gyfwerth yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, mae perfformiad merched yn gyson is na pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg. Dros amser, mae eu perfformiad hefyd yn is mewn Saesneg a mathemateg. Mae perfformiad bechgyn yn gyson is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg mewn Saesneg.

Mae perfformiad y nifer bach o ddisgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim yn amrywiol. Mae eu perfformiad wedi bod yn gryf dros amser yn y dangosyddion sydd yn cynnwys pum gradd TGAU A*-C ac A*-G neu gyfwerth ond nid yw wedi bod gystal yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol yn nodwedd arbennig o ddisgyblion Ysgol y Moelwyn. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau. Maent yn ymroi'n llawn i brofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd.

Mae safonau lles yn uchel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gynnes a chroesawgar gydag ymwelwyr ac yn rhyngweithio'n aeddfed ag oedolion. Maent yn dangos lefelau uchel iawn o barch tuag at ddisgyblion eraill a staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr arlwy gyfoethog o brofiadau dysgu a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn ardderchog yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymdawelu'n gyflym.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt ac yn teimlo bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryderon yn amserol ac yn effeithiol.

Mewn trafodaethau dosbarth, mae disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr, yn dangos parch tuag at gyfraniadau pobl eraill ac yn ystyriol o safbwyntiau gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n effeithiol mewn grwpiau a pharau ac yn dangos aeddfedrwydd cynyddol, gan ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Mae disgyblion yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain. Maent yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft fel aelodau o'r cyngor ysgol, cyngor blwyddyn, fforymau disgyblion ac is-bwyllgor Llais y Plentyn. Yn ogystal, mae disgyblion hŷn yn helpu disgyblion iau gyda'u medrau darllen a rhifedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn fel dinasyddion moesegol a goddefgar. Mae disgyblion o bob oedran yn weithgar iawn wrth drefnu gweithgareddau elusennol a dyngarol. Er enghraifft, maent yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r gymuned leol trwy drefnu cinio misol i'r henoed a thrwy lanhau'r afon o sbwriel. Maent hefyd yn codi arian i achosion lleol a chenedlaethol fel Plant Mewn Angen ac Operation Christmas Child ac yn casglu nwyddau i ffoaduriaid. O ganlyniad, mae'r ysgol yn chwarae rôl bwysig iawn yn yr ardal ac yn gaffaeliad mawr i fywyd cymunedol Blaenau Ffestiniog a'r cylch.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach trwy ddiet ac ymarfer corff. Mae disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol at sicrhau bod y ffreutur yn cynnig bwyd iachus ac yn datblygu arferion bwyta'n iach yn werthfawr.

Mae cyfraddau uchel iawn o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys clybiau dringo, beicio antur a chanŵio.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn dda.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio ystod o weithgareddau ac adnoddau buddiol i ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gwersi hyn wedi eu cynllunio'n fwriadus, gyda gweithgareddau'n adeiladu'n effeithiol ar ei gilydd. Mewn ychydig o wersi, ceir cynllunio creadigol. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, defnyddir cerddoriaeth gyfoes fel sbardun llwyddiannus i waith thematig.

Mae gan athrawon a chymorthyddion berthnasoedd cryf ac adeiladol gyda bron pob disgybl. O ganlyniad, ceir ymddygiad da gan ddisgyblion ym mron pob gwers, gydag ymddygiad arbennig o fewn y mwyafrif o wersi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cymorthyddion yn fedrus wrth gynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth yn lleoedd ysgogol gydag adnoddau buddiol sy'n cefnogi'r gwersi'n effeithiol.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Yn y gwersi hyn, ceir gweithgareddau sy'n herio'r disgyblion yn addas. Mewn ychydig o wersi arbennig o effeithiol, mae'r gweithgareddau yn cynnig her fuddiol i bob disgybl ar draws yr ystod gallu. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac nid yw gweithgareddau'n herio'r disgyblion yn ddigonol.

Mae'r mwyafrif o athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn esbonio'n effeithiol.

Serch hyn, mewn ychydig o achosion, nid yw'r athrawon yn modelu gwaith yn ddigon manwl a chywir. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn y gwersi hyn.

Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn briodol, gydag ychydig yn holi cwestiynau penodol sy'n herio disgyblion unigol yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth buddiol sy'n rhoi arweiniad effeithiol i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Mae lleiafrif o sylwadau athrawon yn rhy arwynebol a gor-ganmoliaethus, ac nid ydynt yn cynnig targedau pwrpasol i sicrhau gwelliant. Yn gyffredinol, pan fo athrawon yn gofyn am ymateb i adborth, dim ond yn y lleiafrif o achosion mae disgyblion yn gwneud hynny'n ystyrlon.

Mae arweinwyr yr ysgol yn ystyried dyheadau'r disgyblion yn ofalus wrth gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus a hyblyg gyda choleg addysg bellach cyfagos er mwyn cynnig darpariaeth eang yng nghyfnod allweddol 4. Ceir ystod werthfawr o gyrsiau TGAU, ynghyd ag opsiynau galwedigaethol mewn pynciau megis peirianneg a thrin gwallt a harddwch.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth a phrofiadau sydd yn hybu cynnydd a chymhelliant disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau â sefydliadau diwylliannol ar draws y wlad a thramor. Mae disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn amryw o brosiectau arbennig, megis gweithio gydag awdures ac artist lleol er mwyn cynhyrchu llyfryn trawiadol 'Strach y Wrach a'r Cathod'. Ceir rhaglen ddefnyddiol o addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith, gan gynnwys dau gyfnod o brofiad gwaith buddiol gyda chyflogwyr lleol i bob disgybl ym Mlwyddyn 10.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'n ofalus i blethu gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd er mwyn datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn addas. Ceir profiadau buddiol i ddatblygu llythrennedd Cymraeg y disgyblion. Yn benodol, mae'r ffocws cadarn ar ddatblygu llafaredd wedi meithrin siaradwyr Cymraeg huawdl. Serch hyn, mae'r cyfleoedd i gryfhau medrau llythrennedd Saesneg y disgyblion yn llai effeithiol. Mae cynlluniau bwriadus a threfnus wedi dechrau cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae darpariaeth TGCh yr ysgol yn ddatblygol, gydag agweddau da.

Mae gweledigaeth gadarn gan yr ysgol i ddatblygu Cymry sy'n falch o'u hetifeddiaeth a'u treftadaeth Gymreig. Cynigir cyfres o weithgareddau gwerthfawr sydd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu mwy am eu hetifeddiaeth a'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, ceir prosiect yr ysgolion celfyddydol arloesol a bu'r ysgol yn flaenllaw iawn yn y dathliadau canmlwyddiant diweddar ers marwolaeth Hedd Wyn. Mae'r ysgol wedi dechrau cyflwyno gweithgareddau buddiol ar draws yr adrannau i hybu dwyieithrwydd y disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt wedi bod yn ddigon llwyddiannus yn sicrhau eu bod yn gyfathrebwyr dwyieithog hyderus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos sydd yn cynnig cymorth ac arweiniad anogol a gofalgar i'w disgyblion. Mae'r ethos cynhwysol a chefnogol hon yn hyrwyddo iechyd, lles a chynnydd disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog ac yn dangos parch at ei gilydd ac eraill.

Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn sicrhau mynediad llawn i gwricwlwm yr ysgol, lle bo'n briodol, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cadarn. Gwneir defnydd da o staff ategol i ddarparu cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau blynyddol pwrpasol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae disgyblion yn cyfrannu at osod targedau personol.

Mae amrywiaeth o ymyraethau defnyddiol ar gyfer disgyblion ag anghenion ymddygiad penodol. Maent wedi helpu'r disgyblion hyn i wella'u hymddygiad, eu lles a'u medrau personol yn sylweddol. Mae'r ddarpariaeth yn yr ystafell gynhwysol (anogaeth) "Ystafell Stwlan", yn darparu cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion bregus.

Mae system olrhain cynnydd effeithiol gan yr ysgol. Yn gyffredinol, gwneir defnydd buddiol o'r wybodaeth hon i adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ac i ddarparu ymyraeth ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn ddigon miniog wrth arfarnu effaith ac addasrwydd yr holl ymyraethau.

Defnyddir strategaethau effeithiol er mwyn olrhain a monitro presenoldeb, ac mae gweithdrefnau llwyddiannus i hyrwyddo presenoldeb. Mae staff ategol yn darparu cefnogaeth gyson a chadarn i'r disgyblion mwyaf anghenus.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni, gan gynnwys y defnydd o ddulliau electronig i gyfathrebu am waith cartref. Mae adroddiadau interim a diwedd blwyddyn cynhwysfawr a nosweithiau rhieni rheolaidd yn darparu gwybodaeth werthfawr i rieni.

Mae'r disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd niferus i gyfranogi mewn gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, er enghraifft perfformiadau cerddorol a chystadlaethau chwaraeon lleol. Mae disgyblion hefyd yn ymgymryd yn frwdfrydig â rolau amrywiol sydd yn eu datblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol. Maent yn trefnu gweithgareddau cymunedol gwerthfawr megis te i'r henoed a Noson Binc i godi arian ar gyfer elusen cancr y fron.

Mae rhaglen gynhwysfawr o addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn darparu profiadau buddiol i'r disgyblion. Er enghraifft, mae diwrnodau ffocws ar themâu fel iechyd meddwl a thrais yn y cartref.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau, gan gynnwys ehangu opsiynau bwydydd iach a newid y dodrefn yn y ffreutur. Maent wedi cyfrannu'n werthfawr at fentrau cymunedol megis Antur Stiniog a datblygiadau'r stryd fawr.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gynnig cyfleoedd cyfartal a phrofiadau cyfoethog mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu a rhannu'r weledigaeth hon gydag arddeliad i holl randdeiliaid yr ysgol. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad cryf o falchder cymunedol. Mae arweiniad cadarn wedi sicrhau addysgu o ansawdd uchel ac ethos cefnogol a gofalgar sy'n darparu amgylchfyd sefydlog a hapus. Mae'r ysgol hefyd wedi ymateb yn gryf i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a lleihau effaith amddifadedd.

Mae rhan fwyaf o'r swyddogaethau a chyfrifoldebau arwain wedi eu dosrannu'n synhwyrol a cheir llinellau atebolrwydd clir. Ceir rhaglen o gyfarfodydd cyson sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae llawer o'r cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys pwyntiau gweithredu defnyddiol a dilyniant synhwyrol o un cyfarfod i'r llall. Fodd bynnag, mae dyletswyddau presennol yr unig ddau aelod o'r uwch dîm arwain yn cyfyngu ar eu hamser i fynd i'r afael yn llawn â chodi safonau.

Mae llawer o reolwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac maent yn ymwybodol o'r hyn sydd eisiau ei wneud i wella ansawdd eu gwaith. Mae'r ysgol yn ymroi'n fuddiol i ddatblygu medrau arweinyddol staff drwy bartneriaeth strategol leol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac adnabyddiaeth briodol o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella.

Mae gan yr ysgol raglen sicrhau ansawdd gadarn sydd yn sail effeithiol ar gyfer ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Caiff y rhaglen hon ei gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth briodol sydd yn cynnwys, yn bennaf, gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar wersi a chraffu ar lyfrau. Serch hyn, nid yw'r ysgol bob amser yn ddigon miniog wrth arfarnu darpariaeth yn ôl ei heffaith ar safonau a chyflawniad disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac yn adnabod yn gywir y prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'n cynnwys dadansoddiad ystadegol defnyddiol o gyflawniad disgyblion yr ysgol dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn bob amser yn ddigon treiddgar. Er enghraifft, nid yw'n esbonio'r dirywiad ym mherfformiad yr ysgol yn ystod y cyfnod diweddar ac nid yw'n rhoi digon o bwyslais ar gymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion tebyg eraill yn ystod yr un cyfnod.

Mae cyswllt rhesymegol clir rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau datblygu yn berthnasol ac yn cynnwys meini prawf llwyddiant priodol ar y cyfan.

Mae gan yr ysgol drefniadau amrywiol a pherthnasol er mwyn cefnogi datblygiad staff. Mae’r staff yn elwa o gyfleoedd buddiol i rannu arfer dda ymhlith ei gilydd ac ar draws ysgolion Meirionnydd yn enwedig. Mae’r ysgol wedi delio’n effeithiol â thanberfformio yn y cyfnod diweddar.

Mae amcanion rheoli perfformiad yn cysylltu’n briodol â blaenoriaethau’r ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw’r targedau rheoli perfformiad yn ddigon mesuradwy i ddwyn aelodau o staff i gyfrif yn effeithiol.

Mae‘r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a’r gwariant yn ofalus iawn. Maent yn gwneud yn siŵr bod cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Caiff y ddarpariaeth a meintiau dosbarthiadau eu monitro’n fanwl er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles y disgyblion. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau i gynorthwyo cyflawniad disgyblion mwyaf bregus yr ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2017